

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Unrhyw gais a wnaethoch yn 2019 neu 2020 i fod yn "Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall" neu i gael eich cynnwys ar "fynegai cydraddoldeb yn y gweithle" Stonewall, gan gynnwys atodiadau i'r ceisiadau hynny. Dylech olygu manylion personol os oes angen.
2. Unrhyw adborth a gawsoch gan Stonewall yn 2019 neu 2020 mewn perthynas ag un ai'r cais neu'r rhaglen.
3. Unrhyw ohebiaeth arall rydych wedi'i chael gan Stonewall yn 2019 neu 2020 oni bai ei bod yn freintiedig neu eich bod wedi'ch eithrio fel arall rhag gorfod datgelu (ond os ydych yn hawlio braint neu esemptiad mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd, nodwch yn fras beth yw'r deunydd ac ar ba sail rydych yn honni bod gennych hawl i'w ddal yn ôl).
4. Manylion llawn unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd gennych mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r ceisiadau hyn (gan gynnwys unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd cyn gwneud cais blaenorol o'r un math os na wnaed asesiad pellach).
5. Manylion cyfanswm y symiau a dalwyd i Stonewall yn 2019 a 2020 boed fel taliadau am nwyddau neu wasanaethau neu beidio.

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Ni ddechreuodd Trafnidiaeth Cymru ymgysylltu â Stonewall tan 2021 ac felly nid oes gennym yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer y blynyddoedd 2019 a 2020.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".